**CYNULLIAD CENEDLAETHOL CYMRU**

**MEMORANDWM CYWIRIADAU YN UNOL Â**
**RHEOL SEFYDLOG 24.13**
**Rheoliadau Awdurdodau Lleol (Newid Trefniadau Gweithrediaeth a Threfniadau Amgen) (Cymru) 2004**

**Y Cefndir**

Cafodd y Rheoliadau drafft hyn eu gosod gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru ar 10 Tachwedd 2004, eu hystyried gan y Pwyllgor Busnes ar 9 Tachwedd 2004 a chan y Pwyllgor Deddfau ar 23 Tachwedd 2004.

Nododd Cynghorwyr Cyfreithiol y Pwyllgor Deddfau, cyn i'r Pwyllgor gyfarfod, fod angen gwneud newidiadau drafftio penodol, ac awgrymwyd diwygiadau yn sgil hynny.

Cyflwynwyd adroddiad ar y diwygiadau a chytunodd y Pwyllgor Deddfau arnynt yn ei gyfarfod ar 23 Tachwedd 2004, ac maent i'w hystyried gan y Cynulliad fel a ganlyn:-

**Diwygiadau i destun Cymraeg y Rheoliadau**

Cododd yr angen am y diwygiadau isod oherwydd mân wallau drafftio a gwallau teipograffyddol:

Yn Rheoliad 9(1), mewnosoder "o Ddeddf 2000" ar ôl "adran 29".

Yn Rheoliad 9(2), mewnosoder "o Ddeddf 2000" ar ôl "adran 33".

Yn Rheoliad 8(1)(b)(ii), yn lle "gweithrediaeth gwahanol neu y gwneir yn ofynnol iddo eu gweithredu yn lle ei drefniadau gweithrediaeth presennol" rhodder "amgen gwahanol neu hyd nes yr awdurdodir ef i weithredu

trefniadau gweithrediaeth yn lle ei drefniadau amgen presennol neu y gwneir yn ofynnol iddo eu gweithredu”.

**<u>Diwygiadau i destun Saesneg y Rheoliadau</u>**

Cododd yr angen am y diwygiadau isod oherwydd mân wallau drafftio a gwallau teipograffyddol:

Yn Rheoliad 9(1), mewnosoder “of the 2000 Act” ar ôl “section 29”.

Yn Rheoliad 9(2), mewnosoder “of the 2000 Act” ar ôl “section 33”.

**Tachwedd 2004**

**SUE ESSEX**

**Y GWEINIDOG DROS GYLLID, LLYWODRAETH LEOL A GWASANAETHAU CYHOEDDUS**